Neuadd Y Sir
Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Caerfyrddin
SA19 6AF

ffon/Facs:
01558 824167

Technical Officer/
Swyddog Technegol:
Mr R.H. Griffiths

The Shire Hall
Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824167

Town Clerk/ Clerc y
Dref: Ms C.A .Paterson
clerk@llandeilo.gov.uk

0174

Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Llandeilo, ar nos Fawrth13eg Ebrill 2004 am 8.10pm

Presennol: Cynghorwyr. Cyng R. Bellamy, Cyng K. Day (Cadeirydd), Cyng C. Jenkins, Cyng S. Burge, Cyng D. A. Jones (Maer)
Eraill; R. Huw Griffiths Swyddog Technolegol C. A. Paterson (Clerc y Dref)

6027: Ymddiheuriadau: Cyng D. Williams, Cyng I. Gwyn.

6028: Materion Cynllunio. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn y Rhybuddion canlynol gyda Chaniatâd wedi ei roi: E/05880, E/05882, E/05881, E/05959, E/ 05879.
Ystyriwyd y Ceisiadau Cynllunio canlynol. .

Cais Cynllunio Rhif:	Sylw'r Pwyllgor
E/06561 Gwesty'r Cawdor Arms , estyniad Cyfleusterau Toiled ar y llawr gwaelod. (Adeilad Rhestredig).	Nid oes gan y Pwyllgor wrthwynebiad i'r cais hwn.
E/06562 Gwesty'r Cawdor Arms, cyfleusterau toiled annigonol, gwella'r Gwesty oddi mewn. (Adeilad Rhestredig)	Nid oes gan y Pwyllgor wrthwynebiad i'r cais hwn.
E/ 06560 9 Stryd yr Eglwys, Llandeilo. Estyn lle preswyl ar y llawr gwaelod sy'n bodoli'n barod. Stryd yr Eglwys, Llandeilo.	Nid oes gan y Pwyllgor wrthwynebiad i'r cais hwn.
E/ 06481 Yr Hen Stordy, Bank Buildings, Llandeilo.	Mae gan y Pwyllgor amheuaeth ddifrifol yngl n â'r cais hwn. Mae'r safle eisoes mewn ardal gyda dwysedd uchel o dai. Gwasanaethir yr ardal gyfan gan ffordd fynediad sengl gyda dim darpariaeth mynediad pellach wedi ei roi ar gyfer y datblygiad hwn. Mae hyn yn codi materion yngl n â pharcio a diogelwch tân, gan na fyddai datblygiad o'i fath ddim o fewn cyrraedd Injian

	Dân. Ar ben hynny, fe fyddai'r datblygiad yn amharu ar fynediad i gefn Gwesty'r Angel, allanfa dan benodedig.

0175

6029: Ceisiadau Trwydded;Mae gan y Pwyllgor un cais Trosglwyddiad Trwydded mewn llaw; Oddi wrth T. G. Jones ynglyn a Fanny's Tea Room.

Y Clerc i gydnabod ei dderbyn.

6030: Y Neuadd Sirol. Mae Archaeoleg Cambria yn dymuno ymgymryd ag astudiaeth dichonoldeb i ychwanegu llawr i'r Neuadd Sirol. Byddai hyn yn cynnwys cael gwared â'r pared sy'n bod ond cadw mainc yr ynadon. Byddai hyn yn rhoi lle swyddfa ychwanegol i'r Ymddiriedolaeth a byddai hefyd yn gadael lle ar gyfer ailddatglygu'r llawr gwaelod, wrth symud rhai parwydydd er mwyn creu Siambr i'r Cyngor/lle Cyhoeddus neu le i Arddangos / ystafell gyfarfod a swyddfa i Glerc y Dref.

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Cyngor y Dref yn cefnogi'r astudiaeth dichonoldeb hon ac ystyriodd yr ailddatblygiad arfaethedig ar sail 50/50 gyda'r Ymddiriedolaeth. Y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth i edrych ar arian grant posibl ar gyfer y datblygiad. Cynigiwyd gan y Cyng. Jenkins, eiliwyd gan y Cyng. Bellamy.

6031: Materion Cludiant. Derbyniodd y Pwyllgor lythyr oddi wrth Andrew Davies AC yngl n â mater y traffig ar Stryd Rhosmaen. Mae'r Pwyllgor yn siomedig gyda'r ateb gan y Cynulliad Cenedlaethol ar fater sydd o bwys mawr i'r Dref.

Copi o'r llythyr i'w ddosbarthu i bob Cynghorydd. Cyng. Day i fynd â chopi o'r llythyr i'r wasg. Copïau i'w hanfon at y Cynghorydd Sir I. Jones. a Chyngor Bro Dyffryn Cennen..

Clerc i roi ateb i Andrew Davies yn gofyn am enwau'r Ymgynghorwyr a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol 'i uniaethu â'r problemau presennol' ac i ofyn am amodau gorchwyl llawn yr Ymgynghorwyr. Ar ben hynny fe fyddai'r Cyngor yn dymuno amserlen gywir o'r cyfarfodydd i gyd i'w hymgymryd â hwy yn ystod y rhaglen hon o Ymgynghori. Llythyr hefyd yn datgan addawyd i'r Cyngor chwe chyfarfod cynnydd ac wedi eu diweddaru ar y pwnc gan Sue Essex yn 2002 ac nid oes cyfarfodydd wedi bod.

Clerc i ysgrifennu at T. Sage yn yr Adran Briffyrdd i godi'r mater o osod ardaloedd 20 milltir yr awr tu allan i ysgolion gan bwyntio at y ddwy ysgol ar Rhosmaen ac yn gofyn am osod a gorfodi cyfyngiad cyflymder o'r fath. Gwahoddir Mr Sage i fynychu cyfarfod o'r Cyngor i drafod y mater traffig yn y dref, a gwahoddir Dyffryn Cennen hefyd, felly hefyd Rhodri Glyn Thomas ac Adam Price a phob parti arall sydd â diddordeb.

6032: Parcio Preswylwyr. Derbyniodd y Pwyllgor lythyr oddi wrth T. Sage yngl n â darpariaeth Cynllun Parcio Preswyl yn Llandeilo.

Llythyr i'w ddosbarthu i bob Cynghorydd yn gofyn am wybodaeth yn ymwneud â gweithgareddau'r gofalwyr Maes Parcio..

0175

6033: Y Palmentydd yn Heol Newydd.

Roedd y Cyng. Burge wedi derbyn cwynion yngl n â chyflwr y palmentydd yn Heol Newydd. Swyddog Technegol i archwilio.

0176

6034 Asesiad Risg.

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cyngor yn derbyn adroddiad o'r Asesiad Risg a ddarperir gan 'RTS associates'.

Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod angen ystyriaeth lawn a chywir o'r Polisi Iechyd a Diogelwch. I'r perwyl hwn mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Polisi Drafft Iechyd a Diogelwch i'w roi fel eitem agenda i gyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio ac Anghenion Cyffredinol yn y dyfodol. Wedyn fe ellir ystyried yr adroddiad mewn rhannau sy'n hawdd ymdrin â hwy, er mwyn llunio Polisi Iechyd a Diogelwch sydd orau i anghenion y Cyngor ac i fod mewn cydsyniad cyfreithiol gyda'r Gweithredwr Iechyd a Diogelwch

.**6035**: Gohebiaeth: Mae *Y Gwrandawiad Apel* am y cais gan David Thomas Jones am y tir gerllaw Brondeg, Heol Gaerfyrddin i'w gynnal yn y Swyddfeydd Cynllunio, am 10.00 y bore ar ddydd Mawrth Ebrill 27ain 2004

Cadw Cymru yn Daclus: Cyfeirio at Gyfarfod o'r Cyngor Llawn:
Antur Cwm Taf Tywi – Cynhaliwyd cyfarfod 31ain o fis Mawrth 2004. Cyng. Day i ofyn am ychwanegu ei enw at y rhestr bostio.
Antur Cwm Taf Tywi – Ffair Goed Gorllewin Cymru i'w chynnal ar 20fed Ebrill 2004.

Cynigiodd y Cyngor ei gydymdeimlad â'r Cyng. Bellamy yn dilyn marwolaeth ei thad

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40pm

0176